









# Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan
Ein Cymuned, Ein Dyfodol, Law yn llaw.

# Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan
Our Community, Our Future, Hand in Hand.

# Croeso i Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan



## Rhagair gan y pennaeth

Mae'n fraint i gyflwyno'r prosbectws yma i rieni a darpar rieni a fydd yn rhoi trosolwg o'n gwerthoedd a beth rydym yn cynnig. Cymraeg yw iaith yr Ysgol. Ein bwriad yw sicrhau bod ein disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, maent yn teimlo'n hapus a diogel ac yn derbyn digon o gyfleoedd i gymdeithasu gyda'u ffrindiau. Rydym am agor drysau gan sicrhau cyfleoedd tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae ein teuluoedd a'n cymuned yn holl bwysig ac ymfalchïwn bod y bartneriaeth yma yn sicrhau ein bod yn cyrraedd yr un nod - sef darparu'r gorau ar gyfer pob plentyn.

## Gair o groeso gan Mrs Julia Griffiths, Pennaeth

Hoffwn estyn croeso cynnes iawn i chi ar ran staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae dalgylch eang yn bwydo'r ysgol sydd wedi ei leoli ar safle eang a braf Marine Drive. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn darparu addysg o'r safon uchaf a phrofiadau cyfoethog mewn ethos Cymreig, cyfeillgar, cynhwysfawr a gofalgar.

## Ein Gweledigaeth

**Ein cymuned, ein dyfodol, law yn llaw.**

Mae angen balchder yn ein cymuned i lwyddo ar gyfer y dyfodol, mae'r ddau yn mynd law yn llaw i barchu a gofalu am ein gilydd er mwyn creu dysgwyr cyflawn ac annibynnol.

### Nodau ac Amcanion

- I feithrin siaradwyr Cymraeg hyderus (yn addysgol ac yn gymdeithasol)
- I ddarparu amgylchedd hapus, diogel a symbylgar ar gyfer yn eu dysgu
- I sicrhau bod pawb yn gweithio at alluogi pob plentyn i wneud cynnydd
- I alluogi pob unigolyn i ddod yn hyderus ac yn annibynnol yn eu dysgu
- I annog yr ymdeimlad o berthyn i gymuned ac o falchder yn eu gwaith a'u hymddygiad
- I greu perthynas agored glòs sy'n cynnwys rhieni a'r gymuned
- I alluogi pob plentyn i ddatblygu ei hunaniaeth ddiwylliannol ei hun ac ar yr un pryd hyrwyddo eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a'u parchu
- I hyrwyddo ystyriaeth a pharch tuag at eraill
- I annog rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg

### Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Addysgir plant y Meithrin a'r Cyfnod Sylfaen yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith mae'r plant yn cyrraedd blwyddyn 3 fe'i dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Amcan sylfaenol yr ysgol yw darparu addysg ddwyieithog i ddisgyblion fydd yn eu galluogi i ennill hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Anelwn at feithrin, yn y plant, ymwybyddiaeth o Gymreictod a chariad at wlad ac iaith.

### Siarter Iaith

Rydym ni am ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r Siarter Iaith i bawb a gall pob aelod o gymuned yr ysgol a thu hwnt gymryd rhan. Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan oedd y cyntaf yn ardal De Cymru i ennill gwobr aur y Siarter Iaith. Mae cynnal safonau y wobr aur yn rhan annatod o ethos a diwylliant yr ysgol.

### Hapus a Diogel

Rydyn ni am i'n disgyblion fwynhau'r ysgol. Rydyn ni eisiau iddyn nhw deimlo'n hapus ac yn ddiogel ac rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw amser i ddysgu ac i chwarae gyda'u ffrindiau. Rydym yn agor drysau i'w dysgu ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael profiadau hwylus a phleserus tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae ein teuluoedd a'n cymuned mor bwysig i ni. Mae'r bartneriaeth bwysig hon yn gwneud yn siŵr bod ein disgyblion yn cael y gorau drwy gydol eu taith gyda ni yn yr ysgol.

### Cysylltwch â ni

Os hoffech drefnu ymweliad â'n hysgol, plis cysylltwch â'r swyddfa ar 01639896338.



# Gwybodaeth Allweddol



## Ein diwrnod ysgol

Trefn y dydd.

Mae gatiau'r ysgol yn agor am 8:50. Mae ein diwrnod ysgol yn dechrau am 9:00.

Adran Corwg Fechan (Meithrin)
8.50yb – 11.30yb/1.00yp – 3.15yp.

Adran Corwg Fechan (Derbyn) ac Adran Nant Gwynfi (Blwyddyn 1 a 2)
9:00yb – 11.55yb/1.00yp – 3.20yp.

Adran Pelenna ac Adran Ffrwdwyllt (Blwyddyn 3, 4, 5 a 6)
9.00yb – 12.00yb/1.00yp – 3.30yp.

### Clwb Brecwast

Rydym yn cynnig Clwb Brecwast dyddiol yn yr ysgol sy'n dechrau am 8:20yb. Mae am ddim i bob disgybl.

## Gwisg ysgol

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol.

- Crys polo gwyn neu goch
- Crys chwys neu gardigan coch
- Trowsus neu sgert du
- Esgidiau neu dreiners du.

Rydym yn cynnig siop gwisg ysgol ail-law am ddim. Cysylltwch a'r ysgol am fwy o fanylion.

## Bwyd yn yr ysgol

Anelwn at sicrhau bod pob disgybl yn cael pryd iach, maethlon. Gellir darparu ar gyfer llysieuwyr ac unrhyw geisiadau diet arbennig. Mae yna ddewis prif brydau poeth gan gynnwys opsiwn llysieuol ar gael bob dydd ynghyd â detholiad o lysiau, saladau tymhorol, opsiwn pasta a bara gwenith cyflawn. Mae yna hefyd brif bwdin dyddiol gydag opsiwn ychwanegol o ddewis powlen ffrwythau. Mae dewis dyddiol o laeth oer neu ddŵr ar gael.

## Cwricwlwm

### Crynodeb Cwricwlwm i Gymru

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-greu drwy ymgysylltu â'r holl rhanddeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canllawiau Cwricwlwm i Gymru.



Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

### Y Pedwar Diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer ein cynllun cwricwlwm ysgol.

Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

## Gweithgareddau allgyrsiol

Rhoddir bwyslais ar gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau o natur ddiwylliannol, adloniadol a chwaraeon gan gynnwys :

- Gwersi drymiau, pres ac offerynnau llinynnol
- Clybiau pêl rwyd, rygbi, pêl droed, criced, gymnasteg a rhedeg.
- Amrywiaeth o dimau cystadleuol gan gynnwys rygbi, pêl rwyd, pêl droed, hoci, tenis a nofio.
- Ymweliadau preswyl
- Cystadlu yn yr Eisteddfod
- Clybiau hwyl wythnosol celf, dawnsio, coginio, digidol, a drama.
- Ymweliadau addysgol ac ymweliadau i'r theatr a'r sinema.

## Iechyd a Lles

Iechyd a lles ein disgyblion yw ein prif flaenoriaeth yn YGG Rhosafan.

Yn ol ESTYN "Un o nodweddion mwyaf effeithiol yr ysgol yw bod staff yn cefnogi lles emosiynol ac yn darparu addysg gyflawn ar gyfer pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio cyfleoedd a chefnogaeth gadarn i ddisgyblion fod yn uchelgeisiol ac i oresgyn anawsterau er mwyn llwyddo. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hapus i ddysgu a chymdeithasu gyda'u ffrindiau."

Rydym yn annog ac yn helpu ein holl disgyblion i fyw bywydau iach a gweithgar ac i hyrwyddo datblygiad y rhinweddau personol dymunol o ymdrech, chwarae teg, cydweithio, dyfalbarhad, ymdeimlad o gyflawniad a hunan-barch.



## Mae croeso cynnes i rieni a gofalwyr yng Nghaffi Rhieni ar brynhawn ddydd Gwener yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Mae Jordan a Craig yn byw ym Mhort Talbot gyda'u plant, Austin, 5 oed, ac Archie, 3 oed.



**Ymuno i mewn**

Mae Jordan yn hapus iawn fod gan Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan gaffi i rieni ar brynhawn ddydd Gwener. "Rwyf wrth fy modd yn galw i mewn i'r caffi rhieni oherwydd mae'n rhoi cyfle i mi ymuno â gweithgareddau'r plant yn yr ysgol," meddai. "Rydyn ni'n cael cyfle i dynnu lluniau gyda'r plant a gwneud amrywiaeth o gwisiau hwylus gyda nhw. Mae'n gyfle i gael paned o de neu goffi, eistedd ar soffa gyfforddus a chwrdd â rhieni eraill i sgwrsio."

**Cwrdd â'r Staff**

Dywedodd Jordan fod y caffi, sy'n agor rhwng 1.30 a 3.00, yn rhoi cyfle gwerthfawr i rieni weld sut mae eu plant yn dod ymlaen yn yr ysgol. "Mae'n rhoi cyfle i chi siarad â'r athrawon mewn awyrgylch hamddenol. Mae'n llawer gwell i drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych pan rydych yn teimlo'n gartrefol."

**Cynnydd buan**

Mae Jordan wedi cael ei hysbrydoli i ddysgu Cymraeg ei hun nawr, oherwydd gwelodd pa mor dda mae Austin yn gwneud drwy siarad yr iaith. Mae hi hyd yn oed wedi cofrestru ar gwrs dysgu Cymraeg. "Pan ddechreuodd Austin yn y meithrin, doedd e ddim yn gallu siarad o gwbl, ond fe ddaeth ymlaen o naid i naid. Mae'r staff yn trochi'r plant yn yr iaith Gymraeg ac erbyn hyn mae'n siarad yr iaith yn rhugl.

Roeddwn i wedi fy syfrdanu pan glywais un o'r athrawon yn siarad Cymraeg ag ef ac roedd yn deall yn union beth roedd hi'n ei ddweud wrtho," meddai Jordan.

**Cyfleoedd da**

"Rydyn ni'n deulu sy'n siarad Saesneg ond roeddwn yn meddwl y byddai'n fuddiol i Austin allu siarad Cymraeg. Rydyn ni'n falch bod yr holl wersi yn Gymraeg oherwydd bydd Austin yn gwneud cynnydd da yn yr iaith. Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn gwella cyfleoedd cyflogaeth Austin yn y dyfodol. Mae'r iaith yn rhan bwysig o'n diwylliant," meddai.

**Cyfleusterau gwych**

Mae Jordan yn hoffi mynychu'r caffi ar brynhawn ddydd Gwener oherwydd mae'n gallu siopa am ddillad ail law, ac mae'n gallu gweld gwaith y plant. Mae ganddynt dai bach a llawer o gyfleoedd i'r plant yn yr ysgol. "Rydyn ni'n canu gyda'n gilydd yn Gymraeg ac mae'n awyrgylch hyfryd a hapus. Mae hyd yn oed ganddyn nhw beiriannau golchi dillad a sychwyr yn y caffi, fel bod pobl yn gallu dod â'u golch i mewn os ydyn nhw eisiau. Rydyn ni'n meddwl bod y staff yr ysgol i gyd yn wych ac rydyn ni yn edrych ymlaen i Archie ddechrau yn y dosbarth meithrin.

**Dywedodd y plant**

"Rwy'n mwynhau tynnu lluniau a gwneud gymnasteg" meddai Austin.



## Dim ond canmoliaeth sydd gan Lydia i staff gofalgar Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Mae Lydia a Chris yn byw ym Mhort Talbot gyda'u merched Ruby sy'n 11 oed ac Evie sy'n 8 oed.



**Athrawon cymwynasgar**

Mae Lydia yn ddiolchgar am yr holl gefnogaeth mae staff Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan wedi ei rhoi i'w theulu. "Mae'n wych i ni i wybod bod athrawon yr ysgol yn gofalu am ein plant pan fyddant yn yr ysgol. Rydyn ni wedi derbyn llawer o garedigrwydd ers i broblemau iechyd fy ngŵr dechrau ac mae wedi bod yn gysurlon i wybod bod lles ein plant yn derbyn gofal," meddai Lydia.

**Symudiad mawr**

"Mae Evie, sydd bellach ym Mlwyddyn 3, yn mwynhau bywyd ysgol, ac mae Ruby, sydd ym Mlwyddyn 6, yn paratoi i symud i ysgol uwchradd ym mis Medi. Mae Ruby yn nerfus ond eto'n gyffrous am symud i ysgol uwchradd, ond rydym yn hyderus bod yr ysgol wedi ei pharatoi'n briodol am yr hyn sydd i ddod," meddai Lydia.

**Rhugl yn y Gymraeg**

Dewisodd Lydia a Chris Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan oherwydd uo o brif amcanion yr ysgol yw i ddatblygu siaradwyr Gymraeg hyderus. "Mae'r ddau ohonom yn dod o Gymru, ond magwyd ni mewn cartrefi Saesneg. Reoedden ni am i'n plant i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl felly penderfynom ni i anfon nhw i ysgol addysg cyfrwng Cymraeg."

**Dod yn ddwyieithog**

Mae Lydia yn hoffi'r ffordd y mae'r holl wersi yn cael eu cynnal yn Gymraeg. "Mae'n fantais i allu siariad Cymraeg yn rhugl a hoffwn i'n plant i dyfu i fyny yn gallu siarad yr iaith yn hyderus."

**Cynnwys rhieni**

Mae Lydia yn ceisio cymryd rhan yn nigwyddiadau a gweithgareddau ysgol gymaint â phosib. "Mae staff yr ysgol yn groesawgar iawn i rieni ac yn dysgu'r plant i fod yn falch o'u cymuned. Rydym yn cael ein croesawu i'r ysgol yn aml i weld gwaith ein plant ac yn mynychu cyngherddau pryd bynnag y gallwn. Rwy'n medddwl bod y Caffi Rhieni yn syniad arbennig ac mae'n wych y gall rhieni rhoi hen eitemau o wisg ysgol i mewn i rieni eraill ailgylchu," meddai Lydia.

**Cyfathrebu da**

Yn ystod COVID pan oedd y dysgu i gyd yn rhuthiol, daeth y staff yn ol atom yn ddi-ffael os oedd angen i ni ofyn unrhyw beth. Mae'n hyfryd i ni wybod nawr, os oes angen unrhyw gyngor arnom, y gellir cysylltu â nhw bob amser.

# Welcome to Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan



## Headeacher's Foreword

It is a privilege to present this prospectus to parents and prospective parents that will give an overview of our values and what we offer. Welsh is the language of the school. Our intention is to ensure that our pupils enjoy coming to school, they feel happy and safe and receive enough opportunities to socialise with their friends. We want to open doors ensuring opportunities inside and outside the classroom. Our families and our community are so important and we are proud that this partnership ensures that we reach the same goal – which is to provide the best for every child.

## A word of welcome by Mrs Julia Griffiths, Headteacher

On behalf of the school's staff and Governing Body, I would like to welcome you to our school. The school is situated within a stone's throw of the sea front, we are located in the middle of Marine Drive which is a large expansive setting. We take great pride that we deliver high standards of education and enriching learning experiences within a welcoming, friendly, inclusive, Welsh environment.

## Our Vision

**Our community, our future, hand in hand**

You need to be proud of your community to succeed in the future, both go hand in hand in respecting and looking after each other to create an independent and complete learner.

Aims and Objectives

- To develop confident Welsh speakers (both educational and social)
- To provide a happy, safe and stimulating learning environment
- To ensure that everyone works towards enabling all pupils to achieve their full potential
- To enable each individual to become a confident and independent learner
- To encourage the children to take pride in their community, work and behaviour
- To develop and sustain a close and open atmosphere that includes parents, governors, and the wider community
- To enable each child to develop his/her own cultural identity, whilst also promoting an understanding and respect for other cultures
- To promote respect and consideration towards everyone
- To enable all pupils to be proficient in both Welsh and English

**Welsh Language**

Welsh is the official language of the school. Nursery and Foundation Phase children are taught entirely through the medium of Welsh. Once the children reach year 3, it is taught through the medium of Welsh and English, but more emphasis is placed on Welsh as a medium of learning. The school's basic objective is to provide bilingual education to pupils which will enable them to gain proficiency in Welsh and English.

We aim to foster, in the children, an awareness of Welsh identity and a love for country and language.

**Welsh Language Charter**

We want to inspire children and young people to use Welsh in all aspects of their lives. The Siarter Iaith is for everyone; all members of the school community and beyond have a part to play. Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan were the first winners of the Siarter Iaith Gold Award in the South Wales area.

Maintaining the gold standard is ingrained in the school's ethos and culture.

**Happy and Secure**

We want our pupils to enjoy school. We want them to feel happy and secure and we make sure that they have time to learn and to play with their friends. We open doors to their leaning and make sure that they have fun and enjoyable experiences inside and outside the class.

Our families and our community are so important to us, and this important partnership makes sure that our pupils get the best throughout their journey with us in school.

**Get in Touch**

If you would like to arrange a visit to our school, please contact the main office on 01639 896338.

# Key Information



## Our school day:

Order of the day.

School gates are open at 8:50am. Our school day begins at 9:00.

Adran Corwg Fechan (Nursery)
8.50am – 11.30am/1.00pm – 3.15pm.

Adran Corwg Fechan (Reception) and Adran Nant Gwynfi (Year 1 a 2)
9:00am – 11.55am/1.00pm – 3.20pm.

Adran Pelenna and Adran Ffrwdwyllt (Year 3, 4, 5 a 6)
9.00am – 12.00am/1.00pm – 3.30pm.

**Breakfast Club**

We offer a daily Breakfast Club in school that starts at 8:20am. It is free to all pupils.

**Uniform**

The school has an official school uniform.

- White or red polo shirt
- Red jumper or cardigan
- Black trousers or skirt
- Black shoes or trainers

We provide a free used school uniform shop for parents. Please contact the school for more information.

## Food in School

We aim to ensure that all pupils are provided with a healthy, nutritious meal. Vegetarians and any special diet requests can be catered for. There is a hot main meal choice including a vegetarian option available daily plus a selection of vegetables, seasonal salads, a pasta option and wholemeal bread. There is also a daily main pudding with an additional option of fruit bowl choice. A daily selection of chilled milk or water are available.

## Curriculum

**Curriculum for Wales Summary**



Our curriculum has been co-constructed through engaging with all stakeholders and will meet the requirement set out in the framework curriculum for Wales

Our curriculum will raise the aspirations of all learners. As a school we have considered how each learner will be supported to realize the four purposes and to move forward. We have considered our ALN provision and how we will meet the needs of different groups of learners.

**The Four Purposes**

The four purposes are the starting point and aspiration for our school curriculum design. Our school aims to support our learners to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society

**Extracurricular Activities**

A great deal of importance is attached to the involvement of pupils in activities of a cultural, recreational and sporting nature, including:

- Drum, brass and string instrument tuition
- Netball, rugby, football, cricket, gymnastics and running clubs.
- Various sporting teams - rugby, netball, football, hockey, tennis, swimming.
- Residential courses at outdoor activities centres.
- Eisteddfod participation.
- Weekly clwb hwyl (fun club), art, dancing, cooking, digital and drama clubs.
- Regular educational visits and theatre and cinema visits.

## Health and Wellbeing

Pupils' health and wellbeing is our main priority at YGG Rhosafan.

According to ESTYN 'One of the most effective features of the school is that the staff support the emotional wellbeing and provide a complete education for all pupils successfully. They plan opportunities and robust support for pupils to be ambitious and overcome difficulties to succeed. As a result, pupils enjoy coming to school and are happy to learn and socialise with their friends.'

We encourage and help all our children to lead healthy and active lifestyles and to promote the development of the desirable personal attributes and qualities of endeavour, fair play, teamwork, perseverance, sense of achievement and self-esteem.





## Parents get a warm welcome at the Parent Café at Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Jordan and Craig live in Port Talbot with their children, Austin, aged 5, and Archie, aged three.



**Joining In**

Jordan is delighted that Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan have a café for parents at the school on Friday afternoons. "I love calling in at the parent café because it gives me chance to join in with the children's activities at school," she says. "We draw with the children and do quizzes with them. You can have a cup of tea or coffee and sit on a comfortable sofa and meet other parents and have a catch up."

**Meeting Staff**

Jordan says the café, opening between 1.30 and 3.00, gives parents a valuable opportunity to see how their children are getting on at school. "It gives you chance to talk to the teachers in a relaxed atmosphere. It is easier to discuss any queries you might have when you are at ease."

**Quick Progress**

Jordan has been inspired to learn Welsh herself now, because of seeing how well Austin is doing with the language, and she has signed up for a course. "When Austin started in the nursery, he couldn't talk at all, but he came on in leaps and bounds once he was there. The staff engulf the children in the Welsh language and he speaks it fluently now.

I was amazed when I heard one of the teachers speak to him in Welsh and he understood exactly what she was saying to him," Jordan says.

**Good Prospects**

"We are an English-speaking family and thought it would be beneficial for Austin to be able to speak Welsh. We are pleased all the lessons are done in Welsh because becoming good in the language will enhance his employment prospects and we also think the Welsh language is an important part of our culture," she says.

**Great Facility**

Jordan likes the Friday afternoon café because it enables parents to be part of their children's experiences at school. "We all sing together in Welsh and it is a lovely, happy atmosphere. They even have washing machines and dryers in the café so people can bring in their washing if they want to. We think all the staff at the school are fantastic and we are looking forward to Archie starting in the nursery there."

**Children Say**

Austin says: "I enjoy doing drawing and gymnastics."



## Lydia has nothing but praise for the caring staff at Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan

Lydia and Chris live in Port Talbot with their daughters, Ruby, aged 11, and Evie, aged 8.



**Helpful Teachers**

Lydia is grateful for all the support the staff at Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan have given her family. "It is great for us to know that the teachers are looking out for our children when they are at school. We have had a fantastic amount of kindness since my husband's health issues and it has been reassuring to know they are making sure our children's mental health is looked after," Lydia says.

**Big Move**

"Evie, who is now in Year 3 is enjoying school life, and Ruby, who is in Year 6, is preparing to go up to secondary school later this year. Ruby is understandably nervous, yet excited about the transition, but we are confident that the school have equipped her with the necessary tools to help her adapt," Lydia says.

**Fluent in Welsh**

Lydia and Chris chose Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan because one of the main aims of the school is to develop confident Welsh speakers. "We are both Welsh, but we grew up in English-speaking homes. We wanted the children to be able to speak fluent Welsh and made a conscious decision to send them to a school where Welsh is the first language."

**Becoming Bilingual**

Lydia likes the way all the lessons are conducted in Welsh and that English lessons do not begin until Year 3. She says: "It is a great advantage in life to have fluent Welsh and we would like our children to grow up to be able to speak Welsh confidently."

**Parents Included**

Lydia gets involved with the school as much as possible when her work allows. "The staff are welcoming to parents and teach the children to be proud of their community. We go in to look at the children's work and attend concerts whenever we can. I think the parent café is a fantastic idea and it is great that parents can hand in old items of uniform there for other parents to recycle," Lydia says.

**Good Communications**

"During COVID when the teaching was all on line, the staff got back to us without fail if we ever needed to ask anything. It is lovely for us to know now that if we need any advice, they are always contactable."

# Derbyniadau a chymryd rhan





## Derbyniadau

Cyngor y Fwrdeistref Sirol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer pob ysgol fabanod, iau, gynradd ac uwchradd a gynhelir yn y gymuned.

Mabwysiadwyd polisi'r Awdurdod Addysg Lleol (A.A.Ll.) ar gyfer derbyniadau i'r ysgol (2011-'12) gan y Corff Llywodraethu. Gwelir manylion yn y llawlyfr 'Gwybodaeth i Rieni'. Yn ogystal, fe allwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar-lein trwy fynd at dudalen cartref 'Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot'.

## Cymryd Rhan

### Caffi Rhieni

Ym mis Medi, lawnsiwyd ein Caffi Rhieni. Mae Caffi rhieni yn amgylchedd diogel a chyfforddus lle gall rhieni ddod am gyngor neu gefnogaeth gan staff neu rieni eraill. Mae'r caffi yn cael ei gynnal yn yr ysgol yn 'Y Cwtsh' ac yn cael ei redeg gan ein Swyddog Ymgysylltu â theuluoedd, Mrs Laura Davies.

### Cylch Ti a Fi

Hefyd, rydym yn cynnal grŵp rhieni/gwarchodwyr a phlant ar brynhawn dydd Mawrth a dydd Iau. Mae'r Ti a Fi yn rhoi cyfle i chi a'ch plentyn i gwrdd yn rheolaidd gyda rhieni/gwarchodwyr a phlant eraill er mwyn i'r plant gael cyfle i fwynhau chwarae gyda'i gilydd. Mae'n gyfle gwych i rieni/gwarchodwyr gwrdd i rannu profiadau a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig.

### CRACh

Mae ein CRACh yn grŵp o rieni a staff sy'n trefnu digwyddiadau ysgol cyffrous i godi arian ar gyfer pethau yn yr ysgol a darparu cyfleoedd i rieni ddod at ei gilydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy amdanom neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.


Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan
Marine Drive, Sandfields, Port Talbot, SA12 7NN

**Telephone:** 01639 896338

**Email:** yggrhosafan@npt.school

**Website:** www.ysgolgymraegrhosafan.co.uk



**Devised and produced by Stoneworks Education Ltd www.stoneworkseducation.co.uk**



© Stoneworks Education Limited 2014-2024. All rights reserved.


# Admissions and getting invloved





## Admissions Policy

The County Borough Council is the Admissions Authority for all maintained Community Infant, Junior, Primary and Secondary Schools.

The Governing Body has adopted the Local Education Authority's admissions policy, details of which can be found in the 'Information for Parents' handbook. You can also access information on-line by going to the homepage of 'Neath Port Talbot County Borough Council'.

## Getting Involved

### Parent Cafe

In September we launched our Parent Café. Parent Café is somewhere parents can come for advice or support from staff or other parents in a relaxed and safe environment. Parent Café is held at school in 'Y Cwtsh' and is ran by our Parent Liaison Officer, Mrs Laura Davies.

### Cylch Ti a Fi

We also run a parent/guardian and baby/toddler group called 'Ti a Fi' every Tuesday and Thursday afternoon in 'Y Cwtsh'. Ti a Fi gives you and your child the opportunity to meet regularly with parents/guardians and other children so that children can enjoy playing together. It is a great opportunity for parents to/guardians to meet to share experiences and socialize in an informal Welsh atmosphere.

### PTA

Our PTA is a group of parents and staff that organise exciting school events to raise money for things in school and provide opportunities for parents to come together. If you are interested in learning more about us or have any suggestions, please contact the school office.

